# Pleidleisiau A Thrafodion Dydd Mawrth, 21 Ionawr 2003

## Dechreuodd y Cyfarfod am 2pm

**Cynnig i ethol aelodau i`r Pwyllgor Deddfau**
*NDM 1295* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 8.4, yn ethol Tom Middlehurst (Llafur) a Huw Lewis (Llafur) yn aelodau o'r Pwyllgor Deddfau yn lle Ann Jones (Llafur) a Karen Sinclair (Llafur).

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 27; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 27
**Derbyniwyd y cynnig (carried)**

**2.00pm**
**Cwestiynau Llafar i'r Prif Weinidog**
Gofynnwyd y 10 cwestiwn cyntaf. Tynnwyd cwestiwn 5 yn ôl.

**2.45pm**
**Datganiad**
**Y Gweinidog dros Ddatblygu Gwledig a Chymru Dramor: Rhaglen Llywodraeth Cynulliad Cymru i wella praidd defaid Cymru**

**3.01pm**
**Datganiad Busnes: Y Trefnydd**
Cytunwyd ar y datganiad busnes

**3.09pm**
**Cynnig o dan Reol Sefydlog 22.25 i gymeradwyo**
*NDM1291* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 22.25:

1. Yn cymeradwyo:

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003,** a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2002.

2. Yn ystyried:

a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, sef Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Cyflwyno Tir fel Tir Mynediad) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2002;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2003; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2003.

3. Yn cymeradwyo:

**Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003**, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 10 Rhagfyr 2002.

4. Yn ystyried:

a) Adroddiad y Pwyllgor Deddfau, nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n destun pryder yn y gorchymyn drafft, sef Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Gwahardd neu Gyfyngu Mynediad) (Cymru) 2003, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 17 Rhagfyr 2002;

b) y Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2003; ac

c) yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 36; Ymatal 0; Yn erbyn 6; Cyfanswm 42
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.10pm**
**Cynnig i ddirprwyo swyddogaethau Deddf Iechyd Anifeiliaid 2002 i Brif Weinidog Cymru**
*NDM 1293* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 62 (1) (b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo holl swyddogaethau'r Cynulliad Cenedlaethol a gynhwysir yn neu o dan Ddeddf Iechyd Anifeiliaid 2002 i Brif Weinidog y Cynulliad, ac eithrio'r rhai na ellir yn ôl y gyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn nac yn lleihau rôl Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

Bydd y dirprwyo hwn yn cael ei wneud gan wybod y caiff y swyddogaethau hynny eu dirprwyo ymhellach, lle y bo hynny'n briodol, i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ac i staff.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 38; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 38
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.17pm**
**Cynnig i gymeradwyo’r *National Assembly for Wales (Disqualification) Order 2003***
***NDM1292* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan weithredu o dan adran 12(7) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn gofyn i Ysgrifennydd Gwladol Cymru argymell i'w Mawrhydi yn y Cyfrin Gyngor bod *y National Assembly for Wales (Disqualification) Order* yn cael ei wneud. Gosodwyd y gorchymyn drafft yn y Swyddfa Gyflwyno ar 13 Ionawr 2003.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 43; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 43
**Derbyniwyd y cynnig**

**3.20pm**
**Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd ynghylch Ynni Adnewyddadwy**
*NDM 1294* - Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi Adroddiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd, "Adolygiad o Bolisi Ynni yng Nghymru, Ynni Adnewyddadwy - Adroddiad Terfynol", sydd ar y Fewnrwyd yn:

http://www.cymru.gov.uk/keypubassemecodev/content/energy/renewable-energy-w.pdf.

**Cynhaliwyd pleidlais:**
O blaid 41; Ymatal 5; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46
**Derbyniwyd y cynnig**

**4.10pm**
**Dadl ar Ffermio i'r Dyfodol**
*NDM 1296* **-** Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn croesawu'r cynnydd sylweddol a wnaed gan Lywodraeth Cynulliad Cymru a'i phartneriaid o ran gweithredu'r argymhellion yn *"Ffermio i'r Dyfodol: cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru" .*

Yn ailddatgan y strategaeth hirdymor a fydd yn galluogi'r byd ffermio i ymaddasu, fel y'i nodwyd yn *"Ffermio i'r Dyfodol"*; strategaeth a seiliwyd ar gynorthwyo'r fferm deuluol Gymreig draddodiadol ac ar egwyddorion cynaliadwyedd yn ei holl agweddau - yn economaidd, yn amgylcheddol, yn gymdeithasol ac yn ddiwylliannol.

Yn cefnogi'r cynnig i barhau i ddatblygu'r rhaglen weithredu mewn partneriaeth â'r rhanddeiliaid, gan gynnal proses graffu reolaidd ym Mhwyllgor Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig y Cynulliad a phroses gloriannu flynyddol gan y Grwp Cynghori ar Ddyfodol Ffermio.

Gellir gweld "*Ffermio i'r Dyfodol: cyfeiriad newydd i ffermio yng Nghymru*" drwy ddefnyddio'r cyswllt canlynol:

http://www.cymru.gov.uk/subiagriculture/content/futures/futuresgroup_w.htm.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**Gwelliant 1 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Dileu 'Yn croesawu'r cynnydd sylweddol' a rhoi yn ei le 'Yn nodi'r cynnydd sylweddol'

**Gwelliant 2 - Jonathan Morgan (Canol De Cymru)**
Ychwanegu ar ddiwedd Pwynt 1:
'ond yn barnu methiant y Llywodraeth i dalu ffermwyr yng Nghymru yn brydlon, o'u cymharu â ffermwyr yng ngweddill y DU.'

**Gwelliant 3 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i sicrhau y crybwyllir anghenion Cymru yn ystod trafodaethau ynghylch adolygiad canol tymor y Polisi Amaethyddiaeth Cyffredin.'

**Gwelliant 4 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i drafod ychwanegedd lawn ar gyfer cynlluniau amaeth-amgylcheddol o dan Biler 2 y Cynllun Datblygu Gwledig.'

**Gwelliant 5 - Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru)**
Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:
'Yn galw ar y Gweinidog dros Faterion Gwledig i ymdrin â goblygiadau niweidiol parhau â'r rheol 20 diwrnod a'r oedi parhaus o ran talu cymorthdaliadau Ewropeaidd.'

**Cynhaliwyd pleidlais:**

**Gwelliant 1**
O Blaid 21; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 49
**Gwrthodwyd y Gwelliant 1**

**Gwelliant 2**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 2**

**Gwelliant 3**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 3**

**Gwelliant 4**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 4**

**Gwelliant 5**
O Blaid 22; Ymatal 0; Yn erbyn 28; Cyfanswm 50
**Gwrthodwyd y Gwelliant 5**

**Y cynnig**
O Blaid 27; Ymatal 13;Yn erbyn 10; Cyfanswm 50
**Derbyniwyd y cynnig**

**Daeth y cyfarfod i ben am 5.22pm**

*******************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mercher, 22 Ionawr 2003**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**DOGFENNAU A GYFLWYNWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF**
**Dogfennau a osodwyd ar 20 Ionawr 2003**

- ☐ The Education (Teachers' Qualifications and Health Standards) (Amendment) (Wales) Regulations 2003 - Regulations Impact Assessment - LD1814 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
- ☐ Local Government Finance Report 2003-04 Final Settlement - LD1815 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
- ☐ The Local Government Finance (Amendment) Report (Wales) 2002-03 - LD1816 - Dim fersiwn Gymraeg ar gael
- ☐ Rheoliadau'r Byrddau Iechyd Lleol (Swyddogaethau) 2003 - LD1817
- ☐ Gorchymyn Byrddau Iechyd Lleol (Sefydlu) (Cymru) 2003 - LD1818
- ☐ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif 2) (Cymru) 2003 - LD1819
- ☐ Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Meddygol Cyffredinol) a (Gwasanaethau Fferyllol) (Diwygio) (Cymru) 2003 - LD1820
- ☐ Rheoliadau Byrddau Iechyd Lleol (Cyfansoddiad, Aelodaeth a Gweithdrefnau) (Cymru) 2003 - LD1821